



**Prifysgol Cymru**  
Y Drindod Dewi Sant  
**University of Wales**  
Trinity Saint David



**UNDEB MYFYRWYR**  
**Y DRINDOD DEWI SANT**  
**TRINITY SAINT DAVID**  
**STUDENTS' UNION**

## Cytundeb Perthynas

rhwng

**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

ac

**Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant**

**(Gorffennaf 2015)**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
1.1 Cefndir.....	3
1.2 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.....	3
1.3 Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant.....	3
1.4 Egwyddorion y Cytundeb.....	4
2. Cytundeb Perthynas.....	4
2.1 Partneriaeth Strategol.....	4
2.2 Canolbwyntio ar Fyfrwyr.....	5
2.3 Parch a dealltwriaeth.....	6
2.4 Didwylledd ac Ymddiriedaeth.....	6
2.5 Cymorth ac ymrwymiad i'r naill gan y llall.....	7
2.6 Annibyniaeth.....	7
2.7 Atebolrwydd.....	7
2.8 Amrywiaeth a Chydraddoldeb.....	8
2.9 Llais Myfyrwyr.....	9
2.10 Ariannu.....	9
3 Y Broses Adolygu.....	10
4 Cadarnhad.....	11
4.1 Cadarnhad Cyngor y Brifysgol.....	11
4.2 Cadarnhad Undeb y Myfyrwyr.....	11

## 1. Cyflwyniad

Diben y Cytundeb Perthynas hwn, dyddiedig 1 Awst 2015, rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) ac Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant (yr UM) yw darparu dealltwriaeth glir o bwysigrwydd y berthynas strategol rhwng y ddau sefydliad.

### 1.1 Cefndir

- 1.1.1 Yn dilyn prosiect a gynhaliwyd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (arolwg Llywodraethu Da a Pherthnasoedd Da) amlygwyd wyth egwyddor allweddol sy'n sail i berthynas waith ardderchog rhwng undebau myfyrwyr a sefydliadau addysg uwch. Bellach yr egwyddorion hyn sy'n sail i Gytundeb Perthynas model a gadarnhawyd gan y CUC, Universities UK a GuildHE.
- 1.1.2 Cyhoeddir y ddogfen hon yn unol â gofynion cylchlythyr CCAUC W14/06HE a gyda chyfeiriad at ganllawiau gweithredol y Comisiwn Elusennau ar gyfer undebau myfyrwyr, Deddf Addysg 1994 a'r egwyddorion sydd wrth wraidd WISE Cymru.
- 1.1.3 Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefannau'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr ac mae modd hefyd wneud cais amdano ar ffurf amgen.

### 1.2 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

- 1.2.1 Crëwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ym mis Tachwedd 2010 gan Siartr Frenhinol ychwanegol, trwy uno Coleg Prifysgol Y Drindod Caerfyrddin â Phrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan. Yn 2012 cafwyd uno pellach rhwng y Brifysgol a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Mae dau ddarparwr Addysg Bellach, Coleg Sir Gâr (2013) a Choleg Ceredigion (2014) hefyd wedi ymuno â Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
- 1.2.2 Mae corff myfyrwyr y Brifysgol yn un amrywiol a llydan. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn dysgu ar draws ystod o gampysau yn ne a gorllewin Cymru yn ogystal â Llundain. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y rôl werthfawr a chanolog sydd wedi, ac a gaiff ei chwarae gan yr UM a chan Gynrychiolwyr Myfyrwyr ar draws y campysau i ddathlu hynodrwydd ac integreiddio'r corff myfyrwyr.

### 1.3 Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant

- 1.3.1 Ymgorfforwyd yr UM ar 1 Awst 2014, gan sefydlu corff elusennol newydd gyda'r nod o hyrwyddo addysg Myfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant er lles y cyhoedd trwy:
  - i. hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ystod eu cwrs astudio a chynrychioli, cefnogi a chynghori Myfyrwyr;
  - ii. bod y sianel gynrychiadol gydnabyddedig rhwng y Myfyrwyr a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac unrhyw gyrff allanol;

- iii. darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamddenol a fforymau ar gyfer trafodaethau a dadleuon ar gyfer datblygiad personol ei Fyfirwyr.
- iv.

## 1.4 Egwyddorion y Cytundeb

1.4.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau adnoddau priodol i'r UM i raddau digonol iddo wneud ei swyddogaethau craidd yn effeithiol, cyflawni ei genhadaeth a chefnogi myfirwyr gan fod yn bartneriaid llawn yn eu haddysg. Mae ariannu'r Brifysgol yn amodol ar lynu wrth yr egwyddorion canlynol:

- (i) Bydd gan yr UM genhadaeth a chyfansoddiad cyhoeddedig, sy'n nodi ei rolau, cyfrifoldebau a'i nodau;
- (ii) Bydd yr UM yn sefydliad annibynnol, ymreolaethol, tryloyw, wedi'i redeg yn broffesiynol a'i arwain yn ddemocrataidd;
- (iii) Bydd yr UM yn gweithredu gydag integreidd, ac yn unol ag egwyddorion Nolan ynghylch ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, i sicrhau ei randdeiliaid bod yr UM a'i swyddogion yn glynu wrth safonau ymddygiad uchel ac yn gweithio er budd yr aelodau;
- (iv) Bydd yr UM yn cynrychioli ystod lawn ac amrywiol ei aelodau-fyfirwyr;
- (v) Bydd yr UM yn ariannol dryloyw a bydd yn cynnal gwerthusiad effeithiol a pharhaus er mwyn gallu rhoi cyfrif am yr arian a gaiff i ystod o randdeiliaid;
- (vi) Cyfranogiad yr UM yn y gwaith o gyflawni amcanion WISE Cymru trwy'i weithgarwch a ariannir.

## 2. Cytundeb Perthynas

### 2.1 Partneriaeth Strategol

- 2.1.1 Mae gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant draddodiad o ymwneud yn gadarnhaol â myfirwyr yn ei brosesau penderfynu ar bob un o lefelau'r sefydliad.
- 2.1.2 Mae gan swyddogion sabothol yr Undeb Myfirwyr ddwy sedd bleidleisio lawn ar Gyngor y Brifysgol – y corff sy'n gyfrifol am lywodraethu a chyfarwyddyd strategol y sefydliad, yn ogystal â chynrychiolaeth y cytunir arni ar Senedd y Brifysgol – sef corff academiaidd goruchaf y sefydliad. Trwy'r swyddogion sabothol a chynrychiolwyr myfirwyr eraill, cynrychiolir y corff myfirwyr ar y Senedd a'i bwyllgorau sefydlog perthnasol.
- 2.1.3 Hwylusir yr ymwneud ar lefel uwch â'r UM yn bennaf trwy'r Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfirwyr) gydag uwch swyddogion eraill y Brifysgol a'r Llywydd Grŵp a Phrif Weithredwr Undeb y Myfirwyr.
- 2.1.4 Cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng uwch swyddogion y Brifysgol a swyddogion sabothol yr UM. Mae'r ymwneud hwn yn ddull gwerthfawr o rannu a mynd i'r afael â materion wrth iddynt godi.
- 2.1.5 Lluniwyd Siartr y Myfirwyr mewn partneriaeth rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac UM Y Drindod Dewi Sant. Mae'n esbonio'n glir ddisgwyliadau'r

Brifysgol a'i myfyrwyr, ac yn cydnabod bod darparu profiad ardderchog i bob myfyriwr yn flaenoriaeth strategol allweddol i'r Brifysgol ac UM.

- 2.1.6 Wrth wraidd Siartr y Myfyrwyr mae egwyddor profiad myfyrwyr ardderchog ac mae'n rhoi sylw dyledus i God Ansawdd y DU a gynhaliwyd gan yr ASA (gweler adran 2.9) sy'n disgrifio'r arferion gorau ynghylch ymwneud myfyrwyr, darparu gwybodaeth a phrofiad addysgol. Mae cyhoeddi'r Siartr yn arddangos yn glir ymrwymiad y Brifysgol i wella'n barhaus ansawdd ei gwasanaethau, wrth gydnabod lle canolog myfyrwyr yn y Brifysgol a'r cyfraniad cadarnhaol a wneir gan yr UM.

## 2.2 Canolbwyntio ar Fyfyrrwyr

- 2.2.1 Mae gan y Brifysgol a'r UM ymrwymiad cadarn i wella profiad addysgol pob myfyriwr a datblygu eu gweithgareddau allgwricwlaidd a chydgwricwlaidd wrth iddynt astudio yn y Brifysgol. Mae'r Brifysgol a'r UM yn cydnabod lle canolog llais y myfyriwr ac mae trefniadau helaeth yn eu lle i sicrhau bod gan fyfyrwyr gyfle i gyflawni newid yn y Brifysgol a chymryd rhan yn bartneriaid yn yr hyn a ddysgant. Disgrifir y trefniadau hyn o dan 2.9 Llais y Myfyrwyr.

- 2.2.2 Mae'r Brifysgol ac UM Y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella'n barhaus brofiadau myfyrwyr. Llais y myfyriwr yw un o'r pethau sy'n ysgogi'r gwaith o weithredu systemau a mentrau newydd a defnyddir adborth myfyrwyr i lywio penderfyniadau sy'n effeithio ar gymuned y myfyrwyr. Mae'r systemau presennol ar gyfer casglu adborth myfyrwyr yn cynnwys:

- Adborth myfyrwyr trwy holiaduron modwl sy'n bwydo i mewn i Fyrddau Cyfadran/Adolygiadau Blynyddol Rhaglenni;
- Yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr (NSS) ac arolygon perthnasol eraill o fyfyrwyr;
- Grwpiau ffocws a Chynadledau Profiad Myfyrwyr a drefnwyd ar y cyd gan yr UM a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr);
- Ymchwil allanol i brofiadau a disgwyliadau myfyrwyr y Brifysgol;
- Platfform adborth VocalEyes yr UM;
- 'Datganiad Blynyddol Myfyrwyr' yr UM a ddatblygwyd yn unol â chanllawiau'r ASA.

- 2.2.3 Yn rhan o'i hymrwymiad i ddarparu profiadau myfyrwyr o ansawdd ac er mwyn dangos ei hymrwymiad i wella cyflogadwyedd ei graddedigion a'u hymrwymiad i ddyfodol cynaliadwy, mae'r Brifysgol wedi sefydlu cynlluniau i hyrwyddo gweithgareddau allgwricwlaidd a chydgwricwlaidd personol a gweithgareddau datblygu sgiliau sy'n arwain at ystod o briodoleddau graddedig allweddol, gan gynnwys hyrwyddo dysgu a chyfrifoldeb cymdeithasol sy'n bodloni anghenion y presennol heb leihau gallu cenedlaethau'r dyfodol sy'n diwallu eu hanghenion eu hunain (Comisiwn Brundtland, 1987). Mae hyn yn cynnwys cydweithredu rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo rhaglen weithgar o ddatblygiad personol i bob myfyriwr gan gynnwys y fenter Dylunio Bywyd, gwirfoddoli, interniaethau a lleoliadau gwaith, gwaith rhan-amser a gwaith gwyliau ac ymwneud mewn clybiau rhedeg a chymdeithasau.

2.2.4 Bydd y Brifysgol yn ceisio datblygu Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch i bob myfyriwr sy'n graddio a sefydlu system ar gyfer cofnodi gweithgareddau perthnasol o dan yr adroddiad hwn – gan alluogi myfyrwyr i fynegi'n llwyddiannus eu sgiliau cyflogadwyedd a'u cyflawniadau i ddarparu gyflogwyr neu fuddsoddwyr yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i hyn, ymwneud myfyrwyr yn y rolau canlynol:

- Cynrychiolwyr Cyrsiau Myfyrwyr;
- Llysgenhadon Myfyrwyr;
- Interniaethau INSPIRE
- Gwirfoddolwyr mewn cyfleoedd a gynigir gan yr UM, megis rolau swyddogion rhan-amser, arweinwyr gweithgareddau myfyrwyr, prosiectau gwirfoddoli, clybiau a chymdeithasau;
- Gwirfoddolwyr ar gynlluniau achrededig;
- Sgiliau a enillwyd trwy'r cynllun Dylunio Bywyd.

### **2.3 Parch a dealltwriaeth**

2.3.1 Mae'r Brifysgol a'r UM yn cydnabod cyfraniad hollbwysig y naill a'r llall i gynnal awyrgylch ffyniannus lle gall myfyrwyr fyw, gweithio a dysgu, ac adeiladu ar yr amgylchedd hwnnw. Gwelir hyn yn y prosesau ymgynghori a phenderfynu sy'n bodoli i sicrhau llwyddiant parhaus y berthynas agos, ac yn nifer y prosiectau cydweithredol a phartneriaeth sy'n bodoli.

2.3.2 Mae'r Brifysgol ac UM wedi ymrwymo i gynnal diwylliant o ddealltwriaeth a pharch ar y cyd.

2.3.3 Mae'r Brifysgol ac UM yn ymrwymo i gynnal partneriaeth weithio adeiladol, barchus a phroffesiynol lle mae'r ymgynghori'n Amserol ac ystyrlon ac mae'r adborth yn seiliedig ar dystiolaeth.

### **2.4 Didwylledd ac Ymddiriedaeth**

2.4.1 Mae'r Brifysgol a'r UM yn cydweithio mewn modd tryloyw ac agored i sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau sefydliadol gyda dealltwriaeth lawn o'r effaith a'r dylanwad posibl ar y corff myfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae ymgynghori â'r myfyrwyr a chyfrannu at Gynllun Ffioedd y Brifysgol yn enghraifft ymarferol o'r ymrwymiad hwn.

2.4.2 Bydd y Brifysgol yn parhau i ymwneud â'r UM a'i gefnogi wrth iddo geisio ymateb i heriau newydd ac addasu i ddiwallu anghenion y corff myfyrwyr sy'n newid o hyd.

2.4.3 Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr), yr Adran Profiadau Myfyrwyr, ac Uwch Swyddogion eraill y Brifysgol, yn cydweithio'n agos â Phrif Weithredwr yr UM a swyddogion Undeb etholedig i ddarparu cyswllt hollbwysig rhwng Cyngor y Brifysgol, Uwch Swyddogion y Brifysgol a'r UM.

2.4.4 Lle bo modd, a phob tro yn unol â rheoliadau Diogelu Data, mae'r didwylledd a'r ymddiriedaeth hon yn ymestyn i rannu data aelodaeth perthnasol a mynediad at wybodaeth a systemau hollbwysig (e.e. data myfyrwyr ar gyfer etholiadau).

## **2.5 Cymorth ac ymrwymiad i'r naill gan y llall**

- 2.5.1 Mae'r Brifysgol a'r UM wedi ymrwymo i wella eu perthynas ragorol o ran ymgynghori a chydweithio. Yn ogystal â'r mesurau ar gyfer ymwneud â myfyrwyr a ddisgrifir uchod, ceisia'r Brifysgol sicrhau y rhoddir gwybod i Gymuned y Brifysgol am ddatblygiadau trwy gylchredeg Bwletinaw Myfyrwyr a Bwletinaw Staff ac y darperir llwybrau clir iddi ar gyfer ymateb i gynigion neu i gynnig barn.
- 2.5.2 Cynigia'r Brifysgol gymorth ac ymrwymiad i ddatblygu unigolion yn ogystal â'r UM trwy annog a chefnogi Cynrychiolwyr Myfyrwyr i fynd i weithdai a chynadleddau allanol perthnasol.
- 2.5.3 Mae'r Brifysgol a'r UM yn ymrwymo i ddeall amcanion strategol ei gilydd a gweithio i nodi meysydd sydd o fudd i'r naill a'r llall, cyfleoedd ar gyfer partneriaeth effeithiol a darparu'n effeithiol er mwyn cynyddu effaith a chynaliadwyedd adnoddau.

## **2.6 Annibyniaeth**

- 2.6.1 Mae'r UM yn sefydliad yn sefydliad annibynnol sy'n gweithio mewn perthynas agos â'r Brifysgol. Swyddogion a etholwyd yn ddemocrataidd sy'n ei arwain ac mae'n gyfrifol am ei gyllideb ei hun, ynghyd â'i drefniadau rheoli a staffio ei hun. Mae wedi'i gofrestru'n annibynnol gyda'r Comisiwn Elusennau ac mae ganddo ei Fwrdd Ymddiriedolwyr ei hun sy'n gyfrifol am redeg yr UM yn gywir.
- 2.6.2 Mae'r naill barti a'r llall yn cydnabod gwerth UM cryf ac annibynnol ac yn deall yr heriau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu ac sy'n gysylltiedig â chydbwysio buddiannau ystod o randdeiliaid mewn cyd-destun allanol sy'n fwy ac yn fwy heriol.
- 2.6.3 Mae'r Brifysgol a'r UM yn ymwneud â'r berthynas ac yn ei hadolygu mewn modd rhagweithiol, gan gynnwys y trefniadau ariannu, a hynny'n flynyddol.

## **2.7 Atebolrwydd**

- 2.7.1 Mae Cyngor y Brifysgol yn cydnabod yr UM yn gynrychiolydd ar gorff myfyrwyr y Brifysgol.
- 2.7.2 Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr yr UM yn cydnabod Cyngor y Brifysgol yn un o gyrff rheoleiddiol yr UM yn unol â'r Ddeddf Addysg (1994).
- 2.7.3 Yn unol â'r Ddeddf Addysg(1994) (Adran 22) mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol i gymryd y camau hynny sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau'r canlynol:
- i. Bod gan Undeb y Myfyrwyr gyfansoddiad ysgrifenedig sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cyngor y Brifysgol bob pum mlynedd.
  - ii. Bod Undeb y Myfyrwyr yn cynnal proses lle caiff myfyrwyr unigol, heb ddod o dan anfantais annheg, dynnu'n ôl o aelodaeth yr undeb a pheidio â chael eu cynrychioli gan Undeb y Myfyrwyr.
  - iii. Bod Undeb y Myfyrwyr yn rhedeg etholiadau democrataidd trwy bleidlais gudd a gynhelir yn deg ac yn ddilys lle mae gan bob aelod hawl i bleidleisio.

- iv. Na ddylai person ddal swydd etholedig gyflogedig yn yr undeb yn hwy na dwy flynedd.
- v. Y cynhelir materion ariannol Undeb y Myfyrwyr yn gywir a bod trefniadau priodol yn eu lle i gymeradwyo cyllideb yr undeb a monitro gwariant.
- vi. Y cyhoeddir adroddiadau ariannol Undeb y Myfyrwyr yn flynyddol ac y trefnir iddynt fod ar gael i'r Brifysgol a'r holl fyfyrwyr. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys:
  - a. Rhestr o'r holl sefydliadau allanol y mae'r Undeb wedi gwneud rhoddion iddynt yn ystod y cyfnod adrodd,
  - b. Manylion y rhoddion hynny
- vii. Y dylai'r weithdrefn ar gyfer dyrannu adnoddau i grwpiau neu glybiau neu gymdeithasau fod wedi'i nodi'n ysgrifenedig ac yn hawdd i bob myfyriwr ei gweld.
- viii. Bod yr Undeb yn cadw cofnod cyhoeddus o gysylltiadau â sefydliadau allanol a manylion y ffioedd a'r tanysgrifiadau a wneir bob blwyddyn.
- ix. Bod gweithdrefn yn bodoli i'r aelod-fyfyrwyr adolygu a chymeradwyo cysylltiadau bob blwyddyn.
- x. Bod rhaid i Undeb y Myfyrwyr gyhoeddi gweithdrefn gwyno y trefnir ei bod ar gael i bob aelod sy'n anfodlon ar ei ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr. Dylai'r weithdrefn hon gynnwys darparu ar gyfer rhywun annibynnol a benodir gan Gyngor y Brifysgol i ymchwilio i gwynion a rhoi adroddiad arnynt.

2.7.4 Monitrir cydymffurfiad â'r rhestr uchod (2.7.3) gan Gyngor y Brifysgol a Bwrdd Ymddiriedolwyr yr UM.

2.7.4 Gan ei fod yn elusen gofrestredig mae'r UM hefyd yn atebol i'r Comisiwn Elusennau o dan y Ddeddf Elusennau (2011), ac mae wedi cofrestru gyda'r Comisiwn yn unol â hyn.

2.7.5 Mae Siartr y Myfyrwyr yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr a'r staff yn y Brifysgol. Mae'n nodi'r cyfrifoldebau y bydd y Brifysgol yn eu cyflawni i'w myfyrwyr; y cyfrifoldebau y dylai myfyrwyr eu cyflawni wrth astudio yn y Brifysgol; cyfrifoldebau'r UM at y Brifysgol a'i myfyrwyr.

## **2.8 Amrywiaeth a Chydraddoldeb**

2.8.1 Mae'r Brifysgol a'r UM wedi ymrwymo i gyfle cyfartal oddi mewn i gymuned y Brifysgol a'i gweithgareddau.

2.8.2 Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n disgrifio ymrwymiad y Brifysgol wrth gyfle cyfartal a'r modd y bydd yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ei gweithgarwch yn gyflogwr, yn ddarparwr Addysg Uwch ac wrth ymwneud â'r gymuned ehangach, er mwyn darparu amgylchedd gweithio lle nad oes unrhyw wahaniaethu, yn unol â'r Ddeddf Gydraddoldeb (2010).

2.8.3 Mae'r Brifysgol yn cydweithio'n agos â'r UM wrth baratoi a darparu sesiynau hyfforddi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae staff a myfyrwyr yn cymryd rhan



ymhellach trwy'r grŵp ffocws ar gydraddoldeb sy'n cwmpasu pob llinyn cydraddoldeb. Anogir cynrychiolaeth gan staff a myfyrwyr fel y gellir trafod materion sy'n ymwneud â'r holl linyddau cydraddoldeb o fewn cymuned y Brifysgol.

- 2.8.4 Mae Cyfansoddiad yr UM yn cynnwys yr ymrwymadau canlynol sy'n sail i'w holl waith ac sy'n llywio dull yr holl staff a'r swyddogion:

Bydd yr Undeb yn ceisio gwneud y canlynol bob amser:

- (i) sicrhau y cydnabyddir amrywiaeth ei aelodau a bod hawl gyfartal i bob Aelod ei ddefnyddio ni waeth ei darddiad neu ei gyfeiriadedd;
- (ii) dilyn ei nod a'i amcanion yn annibynnol ar unrhyw blaid wleidyddol neu grŵp crefyddol;
- (iii) dilyn egwyddorion cyfle cyfartal trwy gymryd camau cadarnhaol oddi mewn i'r gyfraith i'w gwneud yn haws i grwpiau y gwahaniaethir yn eu herbyn mewn cymdeithas gymryd rhan.

## 2.9 Llais Myfyrwyr

- 2.9.1 Cydweithia'r Brifysgol a'r UM i sicrhau llais cryf a bywiog i'r myfyrwyr ac ystyria fod ymwneud a chynrychiolaeth myfyrwyr yn hollbwysig. Mae'r naill barti a'r llall yn cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth myfyrwyr ar bob lefel yn y Brifysgol i gryfhau eu partneriaeth. Ceisiant yn barhaus wella eu partneriaeth agos a'u hymwneud â'r corff myfyrwyr i sicrhau y clywir llais y myfyrwyr ac y gweithredir arno ar bob lefel yn y sefydliad gyda sylw dyledus i'r disgwyliadau a nodir yng Nghod Ansawdd y DU (Pennod B5) ynghylch ymwneud myfyrwyr.
- 2.9.2 Gweithia'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr mewn partneriaeth i ddarparu a hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd a chyfryngau y gall myfyrwyr ymwneud â hwy a chyfrannu i wella eu profiadau dysgu a'u profiad ehangach o fywyd prifysgol. Ystyria bod adborth yn rhan hanfodol o'r broses hon a bod y ddau barti yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a hyrwyddo dulliau adborth.
- 2.9.3 Nodir egwyddorion sylfaenol a manylion ymarferol gweithgarwch y system gynrychioli yn y ddogfen "Trawsnewid Cynrychiolaeth: Partneriaeth rhwng yr UM a'r Brifysgol" a adolygir ac a ddiwedderir ar y cyd bob blwyddyn. Yn y ddogfen hon eglurir rolau a chyfrifoldebau'r UM a'r Brifysgol wrth ddarparu system gynrychioli effeithiol a hwyluso ymwneud ac adborth myfyrwyr.
- 2.9.4 Mae'r UM hefyd wedi ymrwymo i ddarparu Datganiad Blynyddol Myfyrwyr ar brofiad academiaidd myfyrwyr ac i archwilio cyfleoedd ychwanegol i ehangu a chadarnhau'r rhan a gymer myfyrwyr yn y prosesau ynghylch ansawdd academiaidd a dylunio rhaglenni. Cyflwynir Datganiad Blynyddol Myfyrwyr i Gyngor y Brifysgol i'w ystyried a bydd y Brifysgol yn llunio ymateb blynyddol.

## 2.10 Ariannu

- 2.10.1 Mae'r Brifysgol wedi ymroi i ariannu'r UM i ddarparu gweithgarwch craidd yn unol â diffiniad cylchlythyr CCAUC ynghylch arfer da o ran ariannu undebau myfyrwyr effeithiol, democrataidd, a chynrychiolaeth myfyrwyr (W14/06HE, Ionawr 2014).

Mae hwn yn cynnwys y canlynol (yn ddisgwyliad sylfaenol):

- i. Sicrhau etholiad democrataidd swyddogion i ddarparu cenhadaeth yr UM yn unol â'r cyfansoddiad.
- ii. Cefnogi, cynrychioli a chynghori myfyrwyr.
- iii. Hyrwyddo ac amddiffyn buddiannau a lles myfyrwyr yn y sefydliad yn ystod eu hastudiaethau, mewn partneriaeth â'r sefydliad.
- iv. Darparu a chefnogi ar gyfer system effeithiol o gynrychiolaeth myfyrwyr er mwyn cyflawni'r nod o fod y sianel gynrychiadol gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a'r sefydliad, ac unrhyw gyrff allanol eraill.
- v. Darparu a chefnogi ar gyfer system effeithiol o gynrychiolaeth myfyrwyr er mwyn cyflawni'r nod o fod y sianel gynrychiadol gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a'r sefydliad, ac unrhyw gyrff allanol eraill.
- vi. Llundio ac adolygu Siartr y Myfyrwyr ar y cyd â'r sefydliad.
- vii. Llundio datganiad blynyddol myfyrwyr, i fod yn sail deialog â'r sefydliad, adrodd wrth fyfyrwyr, a llywio datblygiad cyflwyniad myfyrwyr ar gyfer yr adolygiad sefydliadol.
- viii. Darparu ymgynghorwyr hyfforddedig i roi cyngor annibynnol ynghylch materion academiaidd a lles, sy'n cysylltu'n effeithiol â gwasanaethau'r sefydliad, a hynny ar sail cytundeb rhwng yr UM a'r sefydliad.
- ix. Hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr mewn arolygon a ffurfiau eraill ar adborth, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, fel y bo'n briodol.
- x. Darparu neu gefnogi gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden ynghyd â ffora ar gyfer trafodaethau a dadleuon er datblygiad personol ei fyfyrwyr.
- xi. Sicrhau bod ei gyngor a'i wasanaethau, a gallu i ddefnyddio'r rhain, yn diwallu anghenion y corff myfyrwyr amrywiol.

2.10.2 Mae'r Brifysgol a'r UM wedi datblygu dull tryloyw o nodi a dyrannu arian priodol, a hynny'n flynyddol. Mae angen nodi gweithgareddau craidd ac ychwanegol (er enghraifft, prosiectau arbennig i ychwanegu gwerth at brofiadau'r myfyrwyr) ar gyfer y sesiwn sydd ar ddigwydd, a gaiff ystyriaeth Is-bwyllgor Cyllid yr UM ac Ymddiriedolwyr yr UM. Unwaith y cytunir ar y rhain, cyflwynir y ffigurau hyn i'r Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio) mewn da bryd i sicrhau digon o gyfle ar gyfer trafodaeth ac adfyfrio. Yn dilyn yr ymwneud hwn, cymeradwyir yr arian ar gyfer y flwyddyn sy'n dod ac wedyn rhoddir gwybod i Is-bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ac Is-bwyllgor Strategaeth y Brifysgol.

### **3 Y Broses Adolygu**

- 3.1.1 Adolygir y cytundeb hwn ar y cyd ym mis Mehefin bob blwyddyn, ar y cyd ag adolygiad blynyddol ar y Siartr Myfyrwyr a phob pum mlynedd ar y cyd ag adolygu cyfansoddiad yr UM.
- 3.1.2 Bydd swyddogion yr UM sydd ar fin dechrau ac sy'n gorffen yn rhan o'r broses adolygu, a'r swyddogion sydd ar fin dechrau fydd yn gyfrifol am lofnodi'r ddogfen.

Cyflwynir y cytundeb perthynas i Gyngor y Brifysgol ym mis Gorffennaf yn flynyddol a'i gyhoeddi erbyn 1 Awst bob blwyddyn.

## **4 Cadarnhad**

### **4.1 Cadarnhad Cyngor y Brifysgol**

Llofnodwyd:

.....  
Yr Hybarch Randolph Thomas

Cadeirydd Cyngor y Brifysgol

Dyddiad:

.....

### **4.2 Cadarnhad Undeb y Myfyrwyr**

Llofnodwyd:

.....  
Mrs Abi Jenkins

Llywydd Grŵp Undeb y Myfyrwyr 2015/16

Dyddiad:

.....

---

Gorffennaf 2015